# NODYN GWYBODAETH RHYWOGAETHAU ESTRON GORESGYNNOL

## Cimwch America (*Homarus americanus*)

Rhywogaeth sydd y tu allan i'w diriogaeth naturiol ac sy'n achosi effaith sylweddol ar fioamrywiaeth frodorol, ein gweithgarwch economaidd ac iechyd pobl yw rhywogaethau estron goresgynnol (INNS).

Mae Cimychiaid America'n cael eu hystyried yn rhywogaeth estron oresgynnol yn y DU gan ei bod y tu allan i'w thiriogaeth naturiol sef gogledd-ddwyrain America a gall effeithio ar boblogaeth ein cimychiaid a'n crancod lleol. Maent yn cael effaith drwy gystadlu â'n poblogaethau brodorol am fwyd a lloches a thrwy ledaenu clefydau.

Ar hyn o bryd, nid yw'n anghyfreithlon mewnforio Cimychiaid America i'r DU. Mae mewnforion yn cael eu rheoli gan yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod drwy Orchymyn Cimychiaid (Rheoli Cyflwyno) 1981 a Gorchymyn Cimychiaid (Rheoli Mewnforio) 1981. Fodd bynnag, mae'n drosedd o dan adran 14(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i ryddhau neu ganiatáu i unrhyw anifail ddianc i'r gwyllt nad yw'n byw fel arfer neu'n ymweld yn aml â Phrydain Fawr.

Mae moroedd Cymru yn ddeinamig ac yn cynnal amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal a gwella ein bywyd morol ac rydym yn gweithio â phartneriaid i atal cyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol.

Gall ryddhau Cimychiaid America a rhywogaethau estron goresgynnol yn fwriadol neu'n anfwriadol i ddyfroedd Cymru gael effaith ddinistriol. Mae angen cefnogaeth pawb, gan gynnwys masnachwyr lleol, er mwyn codi ymwybyddiaeth o effeithiau rhyddhau rhywogaethau estron goresgynnol i'n dyfroedd.

Helpwch i gynnal a gwella ein bywyd morol drwy roi gwybod i un o'r cyrff canlynol os ydych yn credu eich bod wedi gweld neu ddal unrhyw rywogaeth estron oresgynnol:

- Cyfoeth Naturiol Cymru, rhif digwyddiad: 0800 807060 (gwasanaeth 24 awr) neu e-bostiwch enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
- Cymdeithas Pysgotwyr Cymru (WFA), drwy'r ap ffôn symudol Succorfish Catch App.
- Gwefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol PF sydd hefyd yn rhoi gwybodaeth bellach am rywogaethau estron goresgynnol, eu heffaith a sut i'w hadnabod. http://www.nonnativespecies.org

**Mae taflen adnabod Cimychiaid Americanaidd wedi'i atodi.**